

Amodau Gwaith

Oriau Cyfeiriedig (*Directed Time*)

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

Oriau Cyfeiriedig (*Directed Time*)

Oriau cyfeiriedig yw'r **uchafswm** oriau y mae athro i fod ar gael i weithio dan gyfarwyddyd, a hynny ar adeg ac mewn lleoliad o ddewis y Pennaeth/Pennaeth y Gwasanaeth (Awdurdod Lleol).

Dylai'r ysgol gadw cofnod o'r amser cyfeiriedig a sicrhau na fydd athrawon yn mynd dros yr oriau cyn diwedd y flwyddyn ysgol. Byddai'n ddoeth caniatáu rhywfaint o amser dros ben, rhag ofn bod rhywbeth annisgwyl yn codi cyn diwedd y flwyddyn ysgol.

Mae disgwyl, hefyd, i athrawon weithio oriau ychwanegol i'r oriau cyfeiriedig, ar amser ac mewn lleoliad o'u dewis nhw, er mwyn cyflawni gofynion y swydd.

Mae'r manylion canlynol yn seiliedig ar y Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (y Ddogfen), sy'n cynnwys rheolau statudol a chanllawiau am amodau gwaith athrawon.

Nid yw'r manylion canlynol am uchafswm oriau cyfeiriedig yn berthnasol i Benaethiaid, Dirprwyon a Phenaethiaid Cynorthwyol nac i athrawon sy'n derbyn taliad am weithredu, dros dro, fel Pennaeth, Dirprwy Bennaeth neu Bennaeth Cynorthwyol.

Calendr ysgol

Mae'n arfer dda i ysgol drafod amserlen cyfarfodydd a digwyddiadau'r ysgol gyda'r staff, a chynrychiolwyr undebau a cheisio dod i gytundeb er mwyn osgoi problemau.

Gall calendr o'r fath nodi gweithgareddau'r ysgol a gynhelir yn ystod y flwyddyn academaidd fel dyddiau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS), nosweithiau rhieni neu deithiau addysgiadol a amserlenwyd eisoes. Mae'n hynod bwysig ystyried oriau cyflogedig athrawon rhan-amser wrth gynllunio.

Ar ddechrau'r flwyddyn ysgol newydd, felly, mae'n arfer dda i'r Pennaeth sicrhau bod pob athro'n derbyn copi o amserlen neu galendr digwyddiadau'r ysgol sy'n cofnodi'r holl gyfarfodydd a digwyddiadau.

Dylid adolygu'r trefniadau hyn yn flynyddol, a dylai staff a chynrychiolwyr undebau fod yn rhan o'r drafodaeth.

Sefyllfa athrawon llawn-amser

Mae disgwyl i athro llawn-amser fod ar gael i weithio am 1258.5 o oriau wedi'u rhannu'n rhesymol ar draws 194 diwrnod, sef:

- 189 diwrnod ar gyfer addysgu disgyblion a pherfformio dyletswyddau eraill
- 5 diwrnod ar gyfer perfformio dyletswyddau eraill

Athrawon Rhan-Amser

Mae disgwyl i athrawon rhan-amser fod ar gael i weithio'r canran o 1258.5 awr sy'n addas i'w swydd. Dylai athro sy'n derbyn cyflog am weithio 60% o swydd gyfatebol llawn amser fod ar gael am 60% o 1258.5 awr, wedi'u rhannu'n oriau addysgu ac oriau ar gyfer perfformio dyletswyddau eraill.

Mae'r Ddogfen yn nodi'n glir nad oes hawl disgwyl i athro rhan-amser fynychu'r gwaith ar ddiwrnod, neu ran o ddiwrnod, pan na fydd fel rheol yn gyflogedig.

Os bydd Hyfforddiant Mewn Swydd (HMS) ar ddiwrnod pan nad yw athro fel arfer yn gweithio, ni all y Pennaeth fynnu ei f/bod yn bresennol. Dylid talu unrhyw athro sy'n cytuno i weithio ar ddiwrnod neu ran o ddiwrnod pan nad yw fel rheol yn gyflogedig. Ni ellir cyfri rhain yn oriau cyfeiriedig.

Ni ellir ei gwneud yn ofynnol i athrawon rhan-amser weithio na mynychu diwrnodau, neu rannau o ddiwrnodau, heb ddisgyblion, ar ddiwrnodau nad ydynt fel arfer yn gweithio.

(Atodiad 3, paragraff 84 – Dogfen 2021)

Dylai ysgolion sicrhau nad yw eu trefniadau ar gyfer athrawon rhan amser yn torri'r gyfraith berthnasol ynghylch cyfle cyfartal a gwahaniaethu anghyfreithlon.

Gweler taflen 'Gweithio'n rhan amser: tâl ac amodau gwaith athrawon ysgol' am wybodaeth bellach.

Mae rhai pethau nad ydynt yn berthnasol wrth gyfrifo oriau cyfeiriedig

- rhaid i athro gael un toriad rhesymol yn ystod y dydd, naill ai rhwng sesiynau'r ysgol neu rhwng 12.00 a 2.00 o'r gloch; nid yw'r toriad canol dydd i gyfrif tuag at y 1258.5 awr
- nid yw amser teithio i'r gwaith i gyfrif tuag at y 1258.5 awr (heblaw yn achos athrawon peripatetig/teithiol)

Beth sy'n cyfrif tuag at gyfanswm yr oriau cyfeiriedig?

- oriau'r 189 diwrnod ysgol pan fydd disgyblion yn bresennol (heblaw am y toriad cinio); dylid cynnwys:
 - cyfarfod staff boreol/amser y disgwylir i'r staff gyrraedd yr ysgol
 - amser cofrestru (bore/prynhawn)
 - cyfnod cydaddoli
 - pob egwyl (heblaw am amser cinio)
 - amser dyletswydd bws (bore/nos) neu ddyletswydd fore neu ddiwedd y dydd
 - cyfanswm oriau amserlen addysgu'r ysgol (yn cynnwys oriau addysgu, amser CPA, ac amser digyswllt arall e.e. amser rheolaethol)
 - oriau ar ôl ysgol - pob cyfarfod ar ôl oriau addysgu y mae'n ofynnol eu mynychu
- oriau'r diwrnodau HMS (5 yn arferol)

Gofynion o ran cyfarfodydd

Ni ddylid cynnal mwy nag un cyfarfod yr wythnos.

Mae cynnal cyfarfodydd effeithiol yn angenrheidiol ar gyfer rheolaeth fewnol a chyfathrebu o fewn yr ysgol. Mae angen hyblygrwydd ar ysgolion unigol i ddewis patrwm o gyfarfodydd sy'n addas ar eu cyfer.

Mae'n rhan o ddyletswydd athro i gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn yr ysgol sy'n berthnasol i gwricwlwm, gweinyddiad neu drefniant yr ysgol/gwasanaeth. Mae hyn yn cynnwys trefniadau bugeiliol a nosweithiau rheini.

Mae angen defnyddio barn broffesiynol, cael trafodaeth â'r holl staff, ac mae'n rhaid sefydlu patrwm y gellir ei gyfiawnhau.

Os nad oes gan ysgol galendr ar gyfer y flwyddyn dylid gofyn i gynrychiolydd UCAC godi'r mater gyda'r Pennaeth.

Dylai pob ysgol adolygu nifer ac ansawdd eu cyfarfodydd ac asesu eu harferion yn gyson.

Cyfarfod Staff/Adran/Cyfadrn ac ati, ar ôl ysgol

- Ni ddylid cynnal mwy nag un cyfarfod yr wythnos
- Dylai'r cyfarfodydd hyn bara hyd at awr a dechrau o fewn 10 munud i ddiwedd diwrnod addysgu'r ysgol
- Dylid cyfrif unrhyw amser rhwng diwedd amserlen addysgu'r ysgol a'r cyfarfod fel rhan o'r 1258.5 awr
- Er mwyn cynnal cyfarfodydd effeithiol mae angen cadw at amser dechrau a therfyn penodol
- Efallai y bydd rhai aelodau o staff, yn eu tro, yn cyrraedd yn hwyr oherwydd, e.e. dyletswydd bws, ond dylid ddechrau'r cyfarfodydd yn brydlon
- Dim ond pan mae pwrpas clir iddynt y dylid cynnal cyfarfodydd, a dylid canslo cyfarfodydd diangen
- Mae angen dosbarthu agenda ac unrhyw bapurau perthnasol mewn da bryd
- Mae angen sicrhau cadeirio effeithiol
- Dylid annog ac ystyried pob safbwynt wrth arwain y cyfarfod er mwyn dod i gasgliadau/penderfyniadau
- Dylid cyflwyno unrhyw benderfyniad i bawb sydd â diddordeb (rhanddeiliaid) a sicrhau bod gweithredu effeithiol yn dilyn unrhyw benderfyniad
- Os nad yw'r cyfarfod yn berthnasol i rai aelodau staff, ni ddylid disgwyl iddynt fod yn bresennol
- Nid oes disgwyl i athrawon ysgrifennu cofnodion cyfarfodydd; awgrymir bod cofnod yn cael ei gadw o benderfyniadau yn unig

Cyfarfod Rhieni

- Dylai'r cyfarfodydd hyn bara hyd at 2 awr
- Dylid gwneud pob ymdrech i drefnu bod y cyfarfodydd yn cychwyn o fewn hanner awr, fan bellaf, i ddiwedd diwrnod addysgu'r ysgol
- Dylid cyfrif unrhyw amser rhwng diwedd amserlen dysgu'r ysgol a'r cyfarfod yn rhan o'r 1258.5 awr

Noson Agored

- Ni ddylai Noson Agored bara mwy na 2 awr
- Dylid ystyried amser paratoi ar gyfer Noson Agored fel rhan o'r oriau cyfeiriedig

Digwyddiadau lle disgwylir presenoldeb staff

Os bydd yr ysgol yn trefnu digwyddiad, ac yn gofyn i staff ddychwelyd i'r ysgol yn hwyrach yn y nos, dylid cyfrif oriau'r cyfarfod a'r oriau teithio fel rhan o'r 1258.5 awr a chynnig costau teithio. Ni ddylai ysgol ddisgwyl i athrawon fod yn bresennol o dan y fath amgylchiadau; eithriad yn unig ddylai hyn fod.

Sut all athro gyfrifo ei Oriau Cyfeiriedig?

Enghraifft:

1. Nodwch yr amser y disgwylir i chi fod yn bresennol yn yr ysgol ar ddiwrnod ysgol pan mae'r plant yn yr ysgol (heb gynnwys amser cinio). Cofiwch gynnwys cyfarfod boreol, amser cofrestru bore a phrynhawn, amser gwasanaeth, amser egwyl fore (a phrynhawn, os yn berthnasol) yn ogystal â'r oriau addysgu ar yr amserlen ac oriau CPA

Lluoswch hwn gyda 189, sef nifer y diwrnodau pan mae'r ysgol ar agor i blant.
2. Am y diwrnodau HMS cyfrifwch yr oriau perthnasol, e.e. 5 neu 6 awr ar gyfer bob diwrnod a lluosu gan 5; neu'r cyfuniad perthnasol o ddiwrnodau HMS ac Oriau Gwyll.
3. Nodwch sawl awr mae Noson Rhieni'n para (gan gynnwys amser oedi cyn y cyfarfod pan mae rhaid i chi fod yn yr ysgol), e.e. cyfarfod yn cychwyn am 4.00, i fod gorffen am 6.00, ond dylai'r diwrnod ysgol orffen am 3.30 - felly 2½ awr am bob noson rhieni - lluosu gan y nifer o gyfarfodydd rheini, e.e. 2½ awr x 6. Noder, os yw nosweithiau rheini yn cael eu cynnal yn rithiol, mae rheolau'r Health and Safety Executive (HSE) yn dweud nad ddylech fod ar y sgrîn am fwy na dwyawr heb gael toriad.
4. Nodwch yr oriau ar gyfer Noson Agored, gan gynnwys unrhyw waith paratoi ychwanegol yn yr ysgol ac oedi cyn y cyfarfod a chlirio ar ôl y cyfarfod.
5. Nodwch hyd y cyfarfod staff, a lluoswch nifer y cyfarfodydd sydd mewn blwyddyn ysgol. Cofiwch ychwanegu amser oedi yn yr ysgol

cyn i'r cyfarfod ddechrau, e.e. 10 munud bob tro, e.e. 1 awr 10 munud x 33.

6. Yn ogystal â'r uchod:

- cofiwch ddyletswydd bws, diwedd bore/brynhawn – sawl gwaith mae eich tro chi'n dod a pha hyd yw'r cyfnod?
- cofiwch gyngerdd ysgol, noson wobrwyo ac unrhyw ddigwyddiadau eraill lle mae disgwyl i staff fod yn bresennol

Adiwch bob cyfanswm. Ydy hyn yn llai na 1258.5? Os yw'n fwy cysylltwch ag UCAC.

I gael cyngor neu arweiniad pellach, cysyllter â'r Swyddog Maes perthnasol. Ffoniwch swyddfa UCAC ar 01970 639950 i gael sgwrs â:

- Mererid Lewis Davies, Swyddog Maes y De-ddwyrain, mererid@ucac.cymru
- Gareth Morgan, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, gareth@ucac.cymru
- Ioan Rhys Jones, Swyddog Maes y Gogledd, ioan@ucac.cymru
- Jen Jones, Swyddog Maes y Canolbarth a'r De-orllewin, jen@ucac.cymru

Yn ogystal, mae modd cysylltu ag:

- Dilwyn Roberts-Young, Ysgrifennydd Cyffredinol, dilwyn@ucac.cymru
- Rebecca Williams, Swyddog Polisi ac Is-ysgrifennydd Cyffredinol, rebecca@ucac.cymru

Diweddarwyd: Medi 2021



UCAC
Undeb
Cenedlaethol
Athrawon
Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2EU

ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@ucac.cymru

[f facebook.com/AthrawonCymru](https://www.facebook.com/AthrawonCymru) [t twitter.com/AthrawonCymru](https://www.twitter.com/AthrawonCymru)

www.ucac.cymru